nodiadau'r athrawon

# Taflen ffeithiau am wenyn

- Mae dros 250 o wahanol fathau o wenyn ym Mhrydain.
- Mae rhai mathau o wenyn yn byw ar eu pennau eu hunain; mae eraill (e.e. gwenyn mêl a chacwn) yn greaduriaid cymdeithasol ac yn byw mewn nythfeydd mawr.
- Bydd gwenyn mêl yn byw mewn nythfeydd a all gynnwys hyd at 50,000 o wenyn; bydd cacwn yn byw mewn grwpiau llai o ychydig gannoedd.
- *Cwch gwenyn* yw'r enw ar y lle y bydd nythfa o wenyn yn byw.
- O ddechrau'r gwanwyn hyd ddiwedd yr hydref, bydd y gwenyn gweithgar (sef y gweithwyr yn nythfeydd y gwenyn mêl a'r cacwn) yn casglu neithdar a phaill o flodau.
- Bydd gwenyn mêl yn cyfathrebu â'i gilydd trwy `sigl-ddawnsio', h.y. byddant yn dangos i wenyn eraill y cwch gwenyn bod ffynonellau bwyd yn agos, ac ym mha gyfeiriad y mae'r bwyd, trwy droelli a siglo eu cynffonnau.
- Bydd gwenyn yn defnyddio *sugnydd* - tiwb hir a gwag, i gasglu'r neithdar.
- Bydd gwenyn benyw yn casglu paill mewn `basgedi' ar eu coesau ôl.
- Caiff neithdar ei droi'n fêl; caiff mêl a phaill eu cadw mewn diliau gwahanol ar gyfer bwyd.
- Bydd y babi gwenyn (larfae) a'r gwenyn mewn oed yn bwydo ar neithdar blodau, mêl a phaill (bydd gwahanol fathau o wenyn yn bwyta pethau gwahanol).
- Dim ond y frenhines mewn cwch gwenyn neu gwch cacwn a all ddodwy wyau.
- Mewn nythfeydd gwenyn a chacwn y gweithwyr (benywaidd) sy'n gwneud yr holl waith y tu mewn a'r tu allan i'r cwch gwenyn, a gwaith y dronau (gwryw) yw ffrwythloni'r frenhines.
- Mae angen peillio planhigion blodeuog er mwyn iddynt atgynhyrchu, ac mae pryfed fel gwenyn yn bwysig yn y gwaith hwn.
- Bydd gwenyn yn helpu i beillio blodau trwy drosglwyddo paill o'r briger i'r stigma.
- Caiff gwenyn eu bwyta gan bryfed copyn, adar, gwenyn meirch a phryfed.

**Cyfeiriadau**


www.amentsoc.org/insects/fact-files/orders/hymenoptera-apoidea.html

http://eebweb.arizona.edu/faculty/dornhaus/courses/read_ECOL567/Gruter%20Farina%20waggle%20dance%20review.pdf

www.amentsoc.org/insects/insects-and-man/bees-and-beekeeping.html

www.amentsoc.org/insects/glossary/terms/queen